

# Agenda – Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

---

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom	Rhys Morgan
Dyddiad: Dydd Llun, 10 Ionawr 2022	Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.30	0300 200 6565
	<a href="mailto:SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru">SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru</a>

---

## Cofrestru a chyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod (13.15 – 13.30)

- 1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**  
(13.30)
- 2 **Papurau i'w nodi**  
(13.30)
  - 2.1 **Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022–23 – 7 Rhagfyr 2021**  
(Tudalennau 1 – 3)
  - 2.2 **Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y Sefydliad Llafur Rhyngwladol – 8 Rhagfyr 2021**  
(Tudalennau 4 – 5)
  - 2.3 **Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ynghylch defnyddio'r term 'BAME' – 10 Rhagfyr 2022**  
(Tudalennau 6 – 7)
  - 2.4 **Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch ymchwiliad i anghydraddoldeb iechyd meddwl – 14 Rhagfyr 2021**  
(Tudalennau 8 – 10)
  - 2.5 **Gohebiaeth gan Gadeirydd Plismona yng Nghymru ynghylch troi allan anghyfreithlon honedig – 14 Rhagfyr 2021**  
(Tudalennau 11 – 12)



- 2.6 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ynghylch y Rhaglen Cartrefi Clyd – 14 Rhagfyr 2021**  
(Tudalen 13)
- 2.7 Gohebiaeth gan Dominic Raab AS, yr Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ynghylch diwygio'r Ddeddf Hawliau Dynol – 17 Rhagfyr 2021**  
(Tudalennau 14 – 15)
- 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (iv) ac (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod heddiw**  
(13.35)
- 4 Cyllideb Ddrafft 2022–23: paratoi ar gyfer craffu ar y gyllideb**  
(13.35 – 14.35) (Tudalen 16)  
Hannah Johnson, Rheolwr Cyfnewid Gwybodaeth ac Ymgysylltu, Ymchwil y Senedd
- 5 Cyllideb Ddrafft 2022–23: trafod y dystiolaeth a gwaith ymgysylltu**  
(14.35 – 14.50) (Tudalennau 17 – 39)  
Catherine McKeag, Rheolwr Ymgysylltu â Dinasyddion, Senedd Cymru  
Owain Davies, Ymchwil y Senedd
- 6 Cytundebau rhyngwladol: diweddariad gan swyddogion**  
(14.50 – 15.00) (Tudalennau 40 – 44)  
Sara Moran, Ymchwil y Senedd  
**Egwyl (15.00 – 15.15)**
- 7 Gofal plant a chyflogaeth rhieni: trafod yr adroddiad drafft**  
(15.15 – 16.30) (Tudalennau 45 – 102)

Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion  
Gwledig  
Cadeirydd, Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr  
Amgylchedd a Seilwaith  
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder  
Cymdeithasol  
Cadeirydd, Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y  
Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol  
Cadeirydd, Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai  
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r  
Cyfansoddiad

07 Rhagfyr 2021

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

### **Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23**

Ar 16 Gorffennaf 2021, ysgrifennais atoch i rannu syniadau'r Pwyllgor Cyllid ynghylch ein rhaglen ymgysylltu ar gyfer Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru sydd ar y gweill a sut byddwn yn gwneud y gwaith craffu. Rwyf yn ysgrifennu nawr i roi'r diweddaraf am y gwaith hwn.

### **Ymgysylltu**

Rhwng 17 Medi a 26 Tachwedd 2021, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid ymgyngoriad yn ceisio gwybodaeth am y Gyllideb Ddrafft ar ran yr holl Bwyllgorau. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar dudalen y Pwyllgor Cyllid.



**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 [SeneddCyllid@senedd.cymru](mailto:SeneddCyllid@senedd.cymru)

 0300 200 6565

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 [SeneddFinance@senedd.wales](mailto:SeneddFinance@senedd.wales)

 0300 200 6565

Yn ogystal, cynhaliwyd cyfres o grwpiau ffocws i gasglu safbwyntiau a phrofiadau dinasyddion Cymru sy'n ddefnyddwyr gwasanaethau mewn meysydd penodol, neu mae penderfyniadau'r gyllideb ddrafft yn effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Bydd adroddiad yn crynhoi'r materion a themâu allweddol o'r grwpiau ffocws hyn ar gael ganol mis Rhagfyr a bydd eich clercod yn anfon y linc i hwn atoch.

## Ffocws y Gyllideb

Mae'n debygol y bydd adferiad Covid-19 yn parhau i effeithio ar Gyllideb Ddrafft 2022-23. Hefyd, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi nodi nifer o feysydd yr hoffem weld gwaith craffu yn canolbwyntio arnynt, sef:

- *Sut dylid targedu adnoddau i gefnogi adferiad economaidd a pha sectorau y mae angen eu blaenoriaethu'n arbennig;*
- *I ba raddau y dylid blaenoriaethu lleddfu newid hinsawdd wrth gefnogi adferiad economaidd;*
- *Sut mae dyraniadau'r gyllideb yn cefnogi dyheadau cynllun Sero Net Cymru;*
- *Polisiau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi ac anghydraddoldeb rhwng dynion a menywod;*
- *Sut i wario i atal problemau a sut caiff hyn ei gynrychioli yn nyraniadau'r gyllideb (gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau ac yn lleddfu galw ar wasanaethau yn y dyfodol drwy ymyrryd yn gynnar);*
- *Cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau;*
- *Sut mae tystiolaeth yn llywio proses Llywodraeth Cymru o bennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb;*
- *Sut dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethiant a benthycu;*
- *Cymorth ar gyfer busnesau, twf economaidd ac amaethyddiaeth ar ôl cyfnod pontio yr UE;*
- *Beth yw'r cyfleoedd allweddol ar gyfer buddsoddiad gan y Llywodraeth i gefnogi 'ailadeiladu'n well' (e.e. cefnogi economi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwneud yn well o ran cyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).*

Rydym yn gobeithio y bydd y gwaith ymgynghori ac ymgysylltu yn ategu ac yn llywio gwaith y Pwyllgorau polisi, a hoffwn eich annog i ddefnyddio rhai o'r meysydd a amlinellir uchod fel ffocws eich gwaith o graffu ar y gyllideb.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y Gyllideb Ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu Owain Roberts, Clerc y Pwyllgor Cyllid, ar 0300 200 6388 neu [seneddcyllid@senedd.cymru](mailto:seneddcyllid@senedd.cymru).

Yn gywir





Peredur Owen Griffiths AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.  
We welcome correspondence in Welsh or English.



Jenny Rathbone AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a  
Chyfiawnder Cymdeithasol

8 Rhagfyr 2021

Annwyl Jenny

Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol: Confensiwn Trais ac Aflonyddu 2019 (Rhif 190)

Byddwch yn gwybod mai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ein cyfarfod ar 29 Tachwedd 2021, gwnaethom drafod y cytundeb a ganlyn: Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol: Confensiwn Trais ac Aflonyddu 2019 (Rhif 190). Amcan y Confensiwn yw dileu trais ac aflonyddu ym myd gwaith.

Yn ystod ein trafodaethau, gwnaethom gyuno i dynnu'r Confensiwn at sylw'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, o ystyried cylch gwaith y Pwyllgor hwnnw.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies  
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Public Accounts and Public  
Administration Committee

Manon Antoniazzi  
Y Prif Weithredwr a'r Clerc  
Comisiwn y Senedd

10 Rhagfyr 2021

Annwyl Manon

Defnyddio'r term BAME (Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol)

Wrth i'r Pwyllgor drafod ei adroddiad drafft, Craffu ar Gyfrifon: Comisiwn y Senedd 2020-21, roedd nifer o gyfeiriadau at yr acronym BAME. Gofynnodd un Aelod i ni beidio â defnyddio'r term hwn am fod dinasyddion sy'n cynrychioli'r gymuned hon yn teimlo ei fod yn sarhaus. Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn cytuno'n llwyr, ac oni bai am ddyfyniadau uniongyrchol o gyhoeddiadau neu Gofnod y Trafodion, newidiwyd pob cyfeiriad i ddweud 'cymunedau lleiafrifoedd ethnig' yn lle hynny. Rwy'n siŵr byddwch wedi gweld yr ymadrodd hwn yn ein hadroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Gofynnodd y Pwyllgor i mi ysgrifennu atoch yn gofyn i Gomisiwn y Senedd roi'r gorau i ddefnyddio'r term BAME. Cyhoeddodd y Comisiwn ar Wahaniaethau Hil ac Ethnig Adroddiad ym mis Ebrill 2021 ar gyfer Llywodraeth y DU a oedd yn ymchwilio i wahaniaethau hil ac ethnig yn y DU. Un o'r meysydd a ystyriwyd oedd defnyddio'r termau BAME a BME, ac ym mis Mawrth 2021, argymhellodd y Comisiwn ar Wahaniaethau Hil ac Ethnig y dylai Llywodraeth y DU roi'r gorau i ddefnyddio'r term BAME. Mae Llywodraeth y DU yn trafod ei hymateb i Adroddiad y Comisiwn ar hyn o bryd.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu barn Comisiwn y Senedd ar y cais hwn unwaith y bydd wedi'i drafod yn llawn.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.  
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddCCGG@Senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddCCGG  
0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddPAPA@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddPAPA  
0300 200 6565



Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at gadeiryddion pob Pwyllgor yn gofyn iddynt ystyried peidio â defnyddio'r term BAME yng ngohebiaeth a chyhoeddiadau eu pwyllgorau.

Diolch.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Mark Isherwood', with a long horizontal line extending to the right from the end of the signature.

Mark Isherwood AS  
Cadeirydd y Pwyllgor

—  
**Health and Social Care  
Committee**

Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder  
Cymdeithasol

14 Rhagfyr 2021


Annwyl Jayne a Jenny

**Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i anghydraddoldebau iechyd meddwl**

Yn ein cyfarfod ar 2 Rhagfyr 2021, cytunodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gynnal ymchwiliad i anghydraddoldebau iechyd meddwl yn y flwyddyn newydd. Ysgrifennaf atoch am y bydd yr ymchwiliad hwn o ddiddordeb i'ch Pwyllgorau o bosibl, felly dyma rannu ein cylch gorchwyl a throsolwg o'n dull ar gyfer y gwaith hwn. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech drin y wybodaeth hon yn gyfrinachol nes i'r ymchwiliad gael ei lansio.

I helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer gweithio ar draws pwyllgorau mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin, rwyf hefyd wedi gofyn i'm clerc sicrhau bod eich clercod chi'n cael y wybodaeth ddiweddaraf wrth i'r ymchwiliad ddatblygu, er enghraifft trwy rannu dyddiadau allweddol a gwybodaeth megis crynodebau o dystiolaeth ysgrifenedig a manylion ein cynlluniau ar gyfer tystiolaeth lafar a gwaith ymgysylltu wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Yn gywir,



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



# Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i anghydraddoldebau iechyd meddwl

Cefndir

---

Yn ôl y Ganolfan Iechyd Meddwl, mae anghydraddoldeb iechyd meddwl yn rhwystr triphlyg sy'n effeithio ar nifer fawr o bobl o wahanol rannau o'r boblogaeth:

- Mae rhai grwpiau o bobl yn wynebu risg anghymesur o iechyd meddwl gwael. Yn aml, mae hyn yn gysylltiedig ag anghydraddoldebau ehangach mewn cymdeithas.
- Gall grwpiau sydd â lefelau arbennig o uchel o iechyd meddwl gwael wynebu'r anawsterau mwyaf o ran mynediad at wasanaethau.
- Lle mae pobl yn cael cefnogaeth, mae eu profiadau a'u canlyniadau yn aml yn waeth.

Roedd yr anghydraddoldebau hyn yn bodoli cyn y pandemig COVID-19, ond mae'r pandemig wedi eu gwaethygu.

Mae ymchwil yn awgrymu bod grwpiau y mae anghydraddoldebau iechyd meddwl yn effeithio arnynt yn anad neb yn cynnwys: pobl hŷn; pobl awtistig; pobl sy'n byw mewn tldi; oedolion Du; pobl LHDT+; pobl fyddar; plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu; a phobl sydd â salwch meddwl difrifol a pharhaus. Mae ymchwil hefyd yn awgrymu bod rhyw yn ffactor risg o ran iechyd meddwl unigolion, a bod gwahaniaethau rhwng y rhywiau yn y ffyrdd y mae trallod iechyd meddwl yn amlygu ei hun.

Cylch gorchwyl

---

Bydd ein hymchwiliad yn ystyried, yn benodol:

- Pa grwpiau o bobl y mae iechyd meddwl gwael yn effeithio'n anghymesur arnynt yng Nghymru? Pa ffactorau sy'n cyfrannu at iechyd meddwl gwaeth i'r grwpiau hyn?
- I'r grwpiau a nodwyd, beth yw'r rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl? Pa mor effeithiol y gall gwasanaethau presennol fodloni eu hanghenion, a sut y gellid gwella eu profiad o ddefnyddio gwasanaethau iechyd meddwl?
- I ba raddau mae polisi Llywodraeth Cymru yn cydnabod, ac yn mynd i'r afael ag, anghenion iechyd meddwl y grwpiau hyn? Ble mae'r bylchau polisi?
- Pa gamau pellach sydd angen eu cymryd, gan bwy/ym mhle, i wella iechyd meddwl a chanlyniadau'r grwpiau o bobl a nodwyd ac er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd meddwl yng Nghymru?

Rydym yn bwriadu defnyddio dull dau gam ar gyfer casglu tystiolaeth:

- **Casglu tystiolaeth, cam 1:** ym mis Ionawr a mis Chwefror, byddwn yn cyhoeddi galwad agored am dystiolaeth ysgrifenedig. Ategir hyn gan waith ymgysylltu i hyrwyddo'r ymchwiliad a'r potensial i bobl gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig. Bydd cyfres o grwpiau ffocws i sicrhau ein bod yn clywed gan grwpiau sy'n arbennig o debygol o wynebu anghydraddoldebau iechyd meddwl, ond a allai fod yn llai tebygol o gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig.
- **Dadansoddiad o dystiolaeth cam 1:** ym mis Mawrth, bwriadwn gynnal sesiynau 'cyflwyno'r cefndir' ar ffurf tystiolaeth lafar gyda sefydliadau sydd wedi gwneud gwaith helaeth ym maes anghydraddoldebau iechyd meddwl. Byddwn yn defnyddio'r sesiynau hyn a'r dystiolaeth a gesglir yng nghanam 1 i nodi gan bwy y mae angen i ni glywed yn ystod cam 2, a pha ddulliau fyddai fwyaf addas ar gyfer clywed ganddynt (er enghraifft, tystiolaeth lafar ffurfiol neu waith ymgysylltu pellach).
- **Casglu tystiolaeth, cam 2:** yn ystod tymor yr haf, byddwn yn clywed tystiolaeth lafar ffurfiol neu'n ymgymryd â gwaith ymgysylltu yn ôl yr angen er mwyn clywed yn uniongyrchol gan bobl sydd â phrofiad bywyd ac arbenigedd perthnasol. Rydym hefyd yn bwriadu gofyn am ddiweddariad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru ar y cynnydd a wnaed o ran prif argymhellion a wnaed gan bwyllgorau'r Bumed Senedd mewn perthynas ag iechyd meddwl. Byddem yn awyddus i gydgyssylltu â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn hyn o beth.
- **Sesiwn dystiolaeth weinidogol:** yn gynnar yn nhymor yr hydref, bwriadwn wahodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i sesiwn dystiolaeth weinidogol a fydd yn tynnu ar yr holl dystiolaeth a gasglwyd yn ystod ein hymchwiliad.



Jenny Rathbone MS

Chair of the Equality and Social Justice Committee

Welsh Parliament

Cardiff Bay

Cardiff

CF99 1SN

[SeneddEquality@senedd.wales](mailto:SeneddEquality@senedd.wales)

14<sup>th</sup> December 2021

Dear Jenny

## **Debt and the Pandemic – Alleged Illegal Evictions**

We write on behalf of Policing in Wales in response to your letter to all Chief Constables and Police and Crime Commissioners of November 24<sup>th</sup> in relation to the above.

Like you, Policing in Wales was concerned to hear about the allegations put forward by Shelter Cymru, but it is important that we provide some context to how this issue has emerged and how Policing in Wales has responded.

Shelter Cymru wrote to Chief Constables and Commissioners in September with some limited information around alleged police involvement in illegal evictions during the course of the pandemic. An urgent request was made to Shelter Cymru to provide some further information on the back of the initial disclosure by their case workers. This was followed up by a further request in early October, but Shelter responded by saying that they were unable to provide additional details at that point due to staffing shortages. Some limited additional information was received on October 19<sup>th</sup> 2021, but this was not sufficient to enable investigation of specific cases or allegations.

The matter was subsequently raised at the November meeting of your committee and attracted some media interest. Policing in Wales was disappointed that further engagement had not taken place prior to the evidence provided to the Committee. On the back of this, a meeting was arranged between the Chief Executive of Shelter Cymru and Chief Constable Pam Kelly, Chair of the Welsh Chief Officers Group on October 29<sup>th</sup>.

During that meeting, the previous positive working relationships between Policing in Wales and Shelter Cymru were highlighted, but real disappointment was expressed in the way that the allegations made to your committee had surfaced. Policing in Wales awaited further information

around the allegations made and stood ready to work with Shelter Cymru to respond positively to the concerns outlined.

In the meeting, the Chief Executive of Shelter Cymru stressed that it had never been the intention to take the issue to your committee without proper engagement with policing colleagues, but she accepted that this was how it could be interpreted. Over the past 18 months, officers across Wales have been required to deal with relentless changes to laws and regulations in response to the Covid pandemic and many of the examples highlighted by case workers can be ascribed to misunderstanding and misinterpretation. However, there are other cases where there is a clear opportunity for learning. On this basis, two courses of action were agreed:

- Shelter Cymru would develop a brief aide memoire document setting out the rights of tenants and a basic overview of housing law in this area, ensuring that police officers across Wales do not become involved in illegal evictions. This aide memoire will be made available to front line officers and staff in force control rooms
- Quarterly meetings would take place between the Police Liaison Unit (PLU) and officers from Shelter Cymru to identify and deal with emerging issues. The PLU represents the four Chief Constables and Police and Crime Commissioners in their engagement with Welsh Government and are well placed to work with Shelter Cymru on any concerns they identify. PLU staff have made themselves available in between these quarterly meetings should anything more urgent arise

Please be assured that Policing in Wales takes any allegations of this nature extremely seriously and is committed to working with Government and partners to address them on a partnership basis.

Yours sincerely



**Pam Kelly**  
**Chief Constable, Gwent Police**  
**Chair of Welsh Chief Officers Group**



**Dafydd Llywelyn**  
**Police and Crime Commissioner for Dyfed Powys**  
**Chair of Policing in Wales**

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd – y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder  
Cymdeithasol


14 Rhagfyr 2021

Annwyl Jenny,

### Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar 1 Rhagfyr 2021, cafodd y Pwyllgor ei friffio gan Archwilio Cymru ar Raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru, yn sgil ei adroddiad diweddar ar y mater. Er i Aelodau'r Pwyllgor nodi diddordeb brwd yn y pwnc hwn, cawsant ar ddeall y bydd ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i Dlodi Tanwydd yn debygol o ddefnyddio canfyddiadau'r adroddiad. Yng ngoleuni hyn, mae Aelodau Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi cytuno i aros am ganlyniad gwaith eich Pwyllgor, ac, os yw'n briodol, byddai ganddynt ddiddordeb mewn gwneud gweithio ar y cyd ar y mater hwn yn y dyfodol, yn enwedig mewn unrhyw feysydd sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Yn gywir,



Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**OFFICIAL**

Jenny Rathbone MS  
Chair of Equality and Social Justice Committee  
Welsh Parliament  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1SN

**MoJ ref:** MC 92781

16 December 2021

Dear Jenny,

**A CONSULTATION TO REFORM THE HUMAN RIGHTS ACT 1998**

I am pleased to confirm that on 14<sup>th</sup> December 2021, the Government launched a consultation on proposals to reform the Human Rights Act 1998 and to legislate for a Bill of Rights. I wanted to share with you the options on which we are consulting as I recognise you have a strong interest in this area. The consultation is publicly accessible here: <https://consult.justice.gov.uk/human-rights/human-rights-act-reform>.

The UK's tradition of human rights and civil liberties stretches back over the centuries. There are many international instruments and treaties on human rights, first and foremost amongst these was the UN Universal Declaration of Human Rights shortly followed by the European Convention on Human Rights (the Convention). The Human Rights Act 1998 embedded the rights within the Convention within UK domestic law. Over the years there has been mission creep which has resulted in human rights law being used for more and more purposes, including at the expense of the interests of wider society.

The Government is committed to protecting and respecting human rights and has a longstanding tradition of ensuring rights and liberties are protected domestically, and of fulfilling our international human rights obligations. The UK is also committed to membership of the European Convention on Human Rights. However, reforms are needed to ensure that the Human Rights Act meets the needs of the society it serves and commands public support.

The revised legislation, renamed the Bill of Rights, will make sure a proper balance is struck between individuals' rights, personal responsibility and the wider public interest. It will strengthen the role of the Supreme Court of the United Kingdom in the exercise of the judicial function, preserve Parliament's democratic prerogatives in the exercise of the legislative function, and support the integrity of the UK while respecting the devolution settlements. The Government also wants to make sure the Bill of Rights fully reflects the different interests and legal systems in different parts of the UK; we are continuing to engage stakeholders in Scotland, Wales and Northern Ireland as to how that can be achieved.

The consultation will last for 12 weeks, and during this period, the Government is seeking views on the key aspects of these reforms and the proposals set out in full in the consultation document. After we have received and considered the responses, we will in due course put forward legislative proposals to Parliament to revise the Human Rights Act and replace it with a Bill of Rights.



The Independent Human Rights Act Review (IHRAR) panel's report was also published on the 14<sup>th</sup> December 2021, alongside the consultation document. The report is publicly available online here: <https://www.gov.uk/guidance/independent-human-rights-act-review>. Chaired by Sir Peter Gross, IHRAR was launched in December 2020, and was set up to examine the framework of the Human Rights Act, how it is operating in practice and whether any change is required. We welcome this report and will carefully consider its findings as we take forward reform of the Human Rights Act.

If you would like to discuss our proposals further, Lord Wolfson or I will be available to meet with you during and after the consultation period.

Yours sincerely,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Dominic Raab', with a stylized flourish at the end.

**RT HON DOMINIC RAAB MP**

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon